




03/06/2020

Prynhawn da,

Fel yr ydych efallai yn ymwybodol, mae Gweinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams wedi cyhoeddi y bydd ysgolion yn ail-agor yng Nghymru o'r 29ain o Fehefin. Mae'r cyhoeddiad yn golygu y bydd pob plentyn yn cael cyfle i ddod i'r ysgol, parhau i ddysgu a pharatoi ar gyfer yr haf a ffordd newydd "normal" o weithio o Fedi. Bydd grwpiau blwyddyn yn cael eu rhannu i greu grwpiau dysgu llai ac efallai y byddwn yn dylunio amseroedd gwahanol i'r dydd, fydd yn golygu na fydd ond traean o ddisgyblion yn yr ysgol ar unrhyw amser penodol. Rwyf yn aros am fwy o gyfarwyddid gan yr AAL am fod rhaid rhoi pethau mewn lle er mwyn lleihau risg a gwneud ein gorau dros lles a diogelwch pob un o fewn ein cymuned Ysgol ac fe fyddaf yn cysylltu gyda chi pan fydd mwy o wybodaeth gennyf.



Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth ac fe fyddwn yn ymdrechu i'r eithaf er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn yr addysg a'r ddarpariaeth er mwyn hybu lles a chynnal y gefnogaeth emosiynol yn yr wythnosau sydd o'n blaen.

Yn gywir iawn,

Mr C Humphreys

Pennaeth

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys

YGG Tyle'r Ynn

Llansawel Crescent, Llansawel, Castell

Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan

Ffôn/Phone: 01639 812229

e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school

Gwefan/Website: <http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/>